



## Rhestr Wirio ar gyfer Perchennog

Staff/Milfeddyg Swyddogol Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid Phlanigion (APHA) i'w rhoi i'r perchennog ar ôl datgelu'r adweithyddion.

Yn eich prawf TB diwethaf, datgelwyd adweithyddion. Rydych o dan gyfyngiadau awtomatig ac fe'ch gwaherddir rhag symud anifeiliaid buchol i'r safle ac oddi arno ac eithrio o dan drwydded. Ymgynghorwch â'ch swyddfa APHA leol ar gyfer materion o ran trwyddedau.

**Bydd eich swyddfa APHA leol mewn cysylltiad â chi i drefnu i'r anifeiliaid sy'n adweithyddion gael eu priso a'u symud. Cyn yr ymweliad hwn, dylech ystyried y canlynol:**

1	Rhaid i anifeiliaid gael eu hynysu'n briodol. Yng Nghymru, gall methu â chydymffurfio â Hysbysiad TB03 olygu y gall eich iawndal gael ei leihau hyd at 95%.	<input type="checkbox"/>
2	Rhaid i anifeiliaid wisgo tagiau clust yn gywir (rhaid i unrhyw anifeiliaid a anwyd ar ôl 01/01/98) gael tagiau dwbl	<input type="checkbox"/>
3	Rhaid i basbortau fod ar gael ar gyfer yr adweithyddion ar adeg y prisiad. Caiff anifeiliaid heb y dogfennau cywir eu hystyried yn rhai heb werth ar y farchnad ac ni chânt eu priso	<input type="checkbox"/>
4	Rhaid i dystysgrifau llawn fod ar gael ar gyfer anifeiliaid pedigri ar adeg y prisiad (ni dderbynnir ASR na BSR). Os nad yw'r ddogfennaeth hon ar gael, caiff yr anifail ei briso fel stoc fasnachol	<input type="checkbox"/>
5	Rhaid i gofnodion symud fod ar gael (os cynhelir y prisiad ar fferm). Efallai y bydd angen i'r swyddog sy'n ymweld gymryd cofnodion neu gopi ohonynt os oes gennych un. Yn yr achosion hyn, caiff cofnodion eu dychwelyd atoch yn brydlon	<input type="checkbox"/>
6	Rhaid i'r llyfr meddyginiaeth fod ar gael ar adeg y prisiad (os cynhelir y prisiad ar fferm)	<input type="checkbox"/>
7	Os yw meddyginiaeth unrhyw rai o'r adweithyddion yn cael ei thynnu yn ôl, dylech roi gwybod i'r swyddog ar adeg y prisiad. Dylech baratoi manylion am y feddyginiaeth a chyfnodau tynnu'n ôl cyn y prisiad	<input type="checkbox"/>
8	Rhaid i'r adweithyddion fod dan do ar gyfer y prisiad (os cynhelir y prisiad ar fferm) ac mae angen eu rhwystro er mwyn gallu mewnosod tag adweithydd ychwanegol (yr Alban yn unig)	<input type="checkbox"/>
9	Bydd adweithyddion yn mynd i'r lladd-dy felly bydd angen iddynt fod yn lân pan gânt eu cyflwyno i'r cludwr. Mae angen symud anifeiliaid brwnt ar wahân ac mae'n gallu achosi cryn oedi.	<input type="checkbox"/>
10	Ar ôl i'r adweithyddion gael eu symud, rhaid glanhau a diheintio'r ardal a ddefnyddir ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir gan ddefnyddio diheintydd cymeradwy. Unwaith y bydd hwn wedi'i wneud, dylech gwblhau hysbysiad BT5 a gyflwynir i chi gan APHA a'i ddychwelyd yn y post i'ch swyddfa APHA leol	<input type="checkbox"/>
11	Buchesi godro yn unig - cysylltwch â'ch prynwr llaeth i sicrhau y caiff llaeth o'ch buches ei drin â gwres cyn iddo gael ei yfed gan bobl	<input type="checkbox"/>
12	Buchesi godro yn unig - mae llaeth o wartheg sy'n adweithyddion yn anaddas i'w yfed gan bobl ac mae'n rhaid ei atal rhag mynd i mewn i'r swmpdanc llaeth, ni ddylid ei fwydo heb ei drin i loi nac unrhyw famaliaid eraill. Fe'ch cynghorir i gyfeirio at dudalen gefn Nodyn Gwybodaeth TB181 am ragor o wybodaeth	<input type="checkbox"/>
13		<input type="checkbox"/>
14		<input type="checkbox"/>

**Os yw un o'r pwyntiau hyn heb eu cwblhau, gall effeithio ar symud anifeiliaid o'r fferm ac mewn rhai achosion gall effeithio'n andwyol ar yr iawndal a gewch.**

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gweithio i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.